Nod trefniadau'r fframwaith yw sicrhau bod y cydweithrediad sydd wedi bodoli rhwng swyddogion dros y ddau ddegawd diwethaf yn parhau wrth iddynt fwrw ymlaen â'r gwaith o

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 58**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

drosi gwahanol Gyfarwyddebau Seveso. Mae'r nodau cyffredin a nodir yn y Cyfarwyddebau wedi'u rhoi ar waith gan ddefnyddio'r gwahanol reolaethau cynllunio a rheolaethau sylweddau peryglus ym mhob gweinyddiaeth, gyda'r swyddogion cysylltiedig yn cydweithredu â'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth ac yn cynnig cymorth cyffredinol.

**2. A allwch ymhelaethu ar y rheswm pam y dewisodd gweinyddiaethau'r DU fwrw ymlaen â fframwaith anneddfwriaethol?**

Gall y maes hwn ddarparu ar gyfer gwahanol ddulliau gweithredu gan y gweinyddiaethau ac mae'n gwneud hynny. Byddai mabwysiadu dull deddfwriaethol yn ddiangen ac yn anhyblyg. Mae fframwaith anneddfwriaethol yn rhoi hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer gwahanol ddulliau gweithredu ond mae'n darparu'r sail ar gyfer rheoli a chynnal cydweithrediad ym maes datblygu polisi a allai gael ei golli fel arall am fod y maes yn amrywio wrth i weinyddiaethau newid eu blaenoriaethau polisi.

**3. A allwch amlinellu sut rydych wedi cynnwys rhanddeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys diwydiant, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru yn y gwaith o ddatblygu'r fframwaith?**

O gofio mai prin fydd canlyniadau'r cynigion ar gyfer y fframwaith, yn yr un modd prin fu'r ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cynhwyswyd rhanddeiliaid allweddol mewn digwyddiad bord gron ar 19 Mawrth 2019, a gynhaliwyd ar y cyd â gweinyddiaethau eraill. Defnyddiwyd y digwyddiad hwn i gadarnhau a oedd dull deddfwriaethol yn briodol. Ymhlith y rhanddeiliaid sy'n berthnasol i Gymru roedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Cymdeithas y Diwydiannau Cemegol, Cymdeithas Tanciau Storio, Cymdeithas Diwydiant Petrolewm y DU a Chymdeithas y Busnesau Cemegol.

Gwnaethom anfon dogfen y fframwaith amlinellol i rhanddeiliaid yng Nghymru ddechrau mis Hydref, gan gynnwys pob awdurdod sylweddau peryglus ac awdurdod tân ac achub. Anogwyd rhanddeiliaid i gysylltu â'm swyddogion os oedd ganddynt bryderon ynghylch y fframwaith. Ni chafwyd unrhyw sylwadau hyd yma.

**4. A allwch amlinellu'r materion allweddol a godwyd gan rhanddeiliaid yng Nghymru a'r ffordd y mae'r materion hyn wedi cael eu hadlewyrchu yn y fframwaith?**

Ar y cyfan, roedd y diwydiant am weld cysondeb yn y gyfundrefn reoleiddiol (a oedd yn cael ei gwerthfawrogi ynddi'i hun) ac, felly, ni hoffai weld y gweinyddiaethau yn mabwysiadu polisiâu gwahanol. Fodd bynnag, mae parhau i gynnig cyfle i fabwysiadu polisiâu gwahanol yn rhoi mwy o lais i bobl yng Nghymru o ran y ffordd y caiff polisi ar gynllunio defnydd tir ar gyfer peryglon damweiniau mawr ei ddatblygu yn y dyfodol ac yn rhoi hyblygrwydd i brosesau cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus addasu i newidiadau ehangach yng nghyfundrefnau cynllunio a diogelu'r amgylchedd Cymru.

**Rhyngweithio â chyfraith ddomestig a rhyngwladol a chytundebau rhyngwladol**

**5. A allwch egluro a yw'r fframwaith yn rhyngweithio â deddfwriaeth ddomestig bresennol, ac eithrio'r ddeddfwriaeth sydd eisoes wedi'i rhestru yn Adran 1 o'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft ac, os felly, sut?**

Mae'r ddeddfwriaeth a nodir yn y Cytundeb Amlinellol Fframwaith yn darparu'r fframwaith ar gyfer y system o ganiatâd sylweddau peryglus sydd ei hangen i storio cemegion sy'n beryglon damweiniau mawr, a weinyddir gan awdurdodau sylweddau peryglus, yn amodol ar gyngor a roddir yn bennaf gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth a restrir yma hefyd yn sail i ymgynghoriad gorfodol yr

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â chynigion datblygu sy'n ymwneud ag adeiladau sy'n storio sylweddau peryglus.

Mae a wnelo cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus â lleihau effaith damwain fawr drwy gadw datblygiadau sensitif i ffwrdd oddi wrth adeiladau sy'n storio sylweddau peryglus. Y ddeddfwriaeth sy'n ceisio atal y damweiniau yn y lle cyntaf yw Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015 ("Rheoliadau COMAH"). Yr awdurdod cymwys at ddibenion y rheoliadau hyn yng Nghymru yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Cyfoeth Naturiol Cymru gan weithredu ar y cyd. Nid yw'n ddarostyngedig i gytundeb fframwaith.

Ymhlith y ddeddfwriaeth nas rhestrwyd mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) 2005 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi cynlluniau datblygu lleol ystyried y nodau o atal damweiniau mawr a chyfyngu ar ganlyniadau damweiniau o'r fath o ran iechyd pobl a'r amgylchedd.

**6. Mae'r DU wedi llofnodi dau gytundeb rhyngwladol sy'n berthnasol i'r gyfundrefn sylweddau peryglus, sef: Confensiwn Aarhus a Chonfensiwn Effeithiau Trawsffiniol Damweiniau Diwydiannol. A allwch ymhelaethu ar y ffordd y bydd y fframwaith yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Confensiynau hyn?**

Mae cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus yn bwnc arbenigol iawn y mae nifer cyfyngedig o staff yn gysylltiedig ag ef. Felly, bydd y fframwaith yn hwyluso rhannu arferion gorau rhwng y gweinyddiaethau ac yn cynnig cyfleoedd i gymheiriaid adolygu'r ffordd y mae'r confensiynau rhyngwladol yn cael eu rhoi ar waith ynddynt.

**7. A allwch egluro a fydd y negodiadau parhaus rhwng yr UE a'r DU ynghylch y Gydberthynas Rhyngddynt yn y Dyfodol yn effeithio ar y fframwaith ac, os felly, sut y bydd yn effeithio arno?**

Drwy drafodaethau, nid ydym wedi nodi unrhyw wahaniaethau rhwng y gweinyddiaethau o ran sylweddau peryglus a fyddai'n effeithio ar allu'r DU i negodi (ac ati) gytundebau a chytuniadau masnach. Sut bynnag, byddai angen i'r broses o negodi unrhyw gytundebau neu gytuniadau masnach newydd ystyried ble mae cymhwysedd datganoledig yn golygu bod gwahaniaethau rhwng gwahanol wledydd y DU, neu y gallai fod gwahaniaethau rhyngddynt, o ran materion sy'n berthnasol i'r cytuniad neu'r cytundeb penodol hwnnw. Gallai'r telerau y bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd oddi tanynt, ac unrhyw drefniadau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, gynnwys ymrwymadau penodol y gallai fod iddynt oblygiadau i'r gyfundrefn sylweddau peryglus (e.e. o ran safonau amgylcheddol). Yn y senario hwn, bydd y gweinyddiaethau yn llai abl i fabwysiadu polisiau gwahanol, er yr ystyrir y bydd y ffyrdd arfer gorau o weithio fel y'u nodir yn y fframwaith hwn yn dal i ddarparu sail gadarnhaol ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ati ac, felly, ni fydd y fframwaith yn newid.

**8. A allwch egluro a fydd Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU yn effeithio ar y fframwaith ac, os felly, sut y bydd yn effeithio arno?**

Gweler yr ateb i 7 uchod.

**Y broses graffu ac amserlenni**

**9. A allwch gadarnhau y bydd y fframwaith yn cynnwys y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro, y Concordat a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddarau ac y cyfeirir atynt yn y Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft?**

Mae a wnelo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato yn y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro â Rheoliadau COMAH nad ydynt yn rhan o'r fframwaith hwn. Rydym wrthi'n trafod â'r gweinyddiaethau eraill pa ddogfennau yn union y bydd y fframwaith llawn yn eu cynnwys. Rydym yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r pwyllgor ar ôl iddo gael ei gadarnhau.

**10. A allwch egluro a fydd y Concordat a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddarau ar gael i'r Senedd graffu arnynt?**

Rydym yn trafod hyn â'r gweinyddiaethau eraill er mwyn sicrhau bod gennym ddull cyson o ymdrin â gwaith craffu pellach gan y Senedd. Rydym yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r pwyllgor ar ôl iddo gael ei gadarnhau.

**11. A allwch egluro'r amserlen ar gyfer gwaith craffu'r Senedd ar y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro a'r dogfennau cysylltiedig?**

Rydym yn trafod hyn â'r gweinyddiaethau eraill er mwyn sicrhau bod gennym ddull cyson o ymdrin â gwaith craffu pellach gan y Senedd. Rydym yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r pwyllgor ar ôl iddo gael ei gadarnhau.

**Monitro ac adolygu'r trefniadau ar gyfer y fframwaith**

**12. A allwch esbonio pam mae gweinyddiaethau'r DU wedi dewis peidio â sefydlu system fwy ffurfiol ar gyfer monitro'r ffordd y caiff y fframwaith hwn ei roi ar waith?**

Ar ôl adolygiad cychwynnol, penderfynir ar drefniant mwy parhaol ar gyfer cyfarfodydd mynych i drafod y fframwaith hwn yn seiliedig ar amserlen a ystyrir yn briodol. Gwnaed y penderfyniad i beidio â gosod rhaglen fonitro fwy ffurfiol ar yr adeg hon drwy gytundeb rhwng y pedair gweinyddiaeth ac mae'n seiliedig ar bwysigrwydd cymharol y maes ac awydd i beidio â gorlwytho'r trefniadau gweithio syml a fu'n llwyddiannus hyd yma. Y safbwynt yw bod angen i unrhyw broses fonitro ac adolygu fod yn gymesur â'r maes polisi.

**13. A allwch egluro a gaiff adroddiad ar y cyfarfod adolygu rhwng gweinyddiaethau'r DU ei gyhoeddi?**

Rydym wrthi'n penderfynu'n derfynol ar fanylion proses y cyfarfodydd adolygu â'r gweinyddiaethau eraill a byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor unwaith y deuir i gytundeb.

**14. A allwch esbonio o dan ba amgylchiadau na fyddai'n briodol cynnwys rhanddeiliaid yn y broses adolygu ar gyfer y fframwaith?**

Rydym wrthi'n penderfynu'n derfynol ar fanylion proses y cyfarfodydd adolygu â'r gweinyddiaethau eraill a byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor unwaith y deuir i gytundeb.

**15. A allwch gadarnhau a all y Senedd gyfrannu at y broses adolygu ar gyfer y fframwaith ac, os felly, sut y bydd yn cyfrannu ati?**

Rydym wrthi'n penderfynu'n derfynol ar fanylion proses y cyfarfodydd adolygu â'r gweinyddiaethau eraill a byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor unwaith y deuir i gytundeb.

## Cefndir y fframwaith cyffredin

### **16. A allwch amlinellu 'gofynion sylfaenol' Cyfarwyddeb Seveso III mewn perthynas â chynllunio ar gyfer sylweddau peryglus, sy'n gyffredin ledled y DU?**

Yn fras iawn, mae gofynion sylfaenol Cyfarwyddeb Seveso III sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir, fel a ganlyn:

- a) dylai caniatâd gael ei roi gan awdurdod cymwys cyn i sylweddau, dros y swm a nodir yn y Gyfarwyddeb, allu cael eu storio mewn adeilad;
- b) dylai'r broses o lunio polisiau cynllunio ystyried nodau ac amcanion y Gyfarwyddeb i atal damweiniau mawr a chyfyngu ar ganlyniadau damweiniau o'r fath o ran iechyd pobl a'r amgylchedd drwy gynnal pellteroedd diogelwch priodol;
- c) dylai'r awdurdod cymwys ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â pheryglon damweiniau mawr cyn iddo roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau gerllaw adeiladau, ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad gerllaw adeiladau o'r fath a chaniatâd sylweddau peryglus.
- d) dylai awdurdodau sylweddau peryglus ac awdurdodau cynllunio lleol ddarparu gwybodaeth ac ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y gweithgareddau uchod.

### **17. A allwch roi manylion pellach am y potensial i fabwysiadu polisiau gwahanol o dan y gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus bresennol?**

Mae lle i fabwysiadu polisiau gwahanol o ran y sylweddau a'u symiau sy'n cael eu rheoli gan y gyfundrefn Mae lle hefyd i fabwysiadu gweithdrefnau ac amserlenni gwahanol mewn perthynas â rhoi caniatâd sylweddau peryglus a pholisiau gwahanol o ran y ffordd y mae'r gwahanol systemau cynllunio yn rhyngweithio â'r nod o gynnal pellteroedd diogelwch oddi wrth adeiladau.

## Y gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus ar ôl i'r DU ymadael â'r UE

### **18. A allwch egluro a gedwir unrhyw rai o'r 'cyfyngiadau allweddol' presennol ar lefel y DU gyfan ar ôl i'r DU ymadael â'r UE? Sut y caiff hyn ei adlewyrchu yn y fframwaith?**

Nid oes unrhyw gytundeb gwleidyddol ffurfiol i gadw'r un diffiniadau ledled y DU ond cydnabyddir, am fod gweithgarwch cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus yn mynd rhagddo yn y DU cyn i Gyfarwyddeb Seveso gael ei chyflwyno am resymau da yn ymwneud â diogelwch a'r amgylchedd, nad oes fawr ddim awydd i newid y sefyllfa bresennol. Mae'r system bresennol yn seiliedig ar dystiolaeth sylweddol a dibynadwy gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n golygu bod rheolaethau presennol y DU ar gyfer rhai sylweddau yn fwy trylwyr na'r rhai yn y gyfarwyddeb ac nid oes fawr ddim pwysau o du rhanddeiliaid i ddiwygio'r system. Mae'r Fframwaith yn ymdrin â'r ffaith nad oes cytundeb ffurfiol drwy ei gwneud yn ofynnol i weinyddiaethau dynnu sylw awdurdodaethau eraill at unrhyw gynlluniau y maent yn bwriadu eu gwneud fel y gellir cynllunio ar gyfer unrhyw oblygiadau ar draws gweinyddiaethau ymlaen llaw.

### **19. Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i gadw gofynion sylfaenol cyffredin, gan gynnwys, er enghraifft, safonau gofynnol o ran yr hyn sy'n gyfystyr â sylwedd peryglus?**

Mae'r trafodaethau hyd yma wedi parchu'r ffaith bod y materion yn rhai datganoledig ac y gellir pennu sylweddau a symiau gwahanol. Fodd bynnag, mae'r trafodaethau hefyd wedi

cydnabod bod gwahaniaethau yn annhebygol o godi am fod y safonau gofynnol yn bodoli am resymau diogelwch yn seiliedig ar sail dystiolaeth gyffredin a arweinir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a rheoleiddwyr diogelwch eraill.

**20. Beth yw'r risgiau a'r cyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â chadw gofynion sylfaenol cyffredin ac ehangu'r cyfle i fabwysiadu polisïau gwahanol?**

Y prif risgiau fyddai dryswch cyffredinol ym mhob rhan o'r diwydiant ynghylch pa ganiatâd sydd ei angen a'r posibilrwydd y byddai poblogaeth y DU yn cael ei hamlygu i fwy o risg o ddamweiniau mawr. Fodd bynnag, mae'n rhaid cofio bod y system bresennol wedi'i llunio er mwyn galluogi ardaloedd gwahanol i benderfynu drostynt eu hunain, drwy eu hawdurdod sylweddau peryglus, pa lefel o risg y maent yn barod i'w derbyn wrth gynllunio ar gyfer adeiladau newydd ac ar gyfer datblygu o'u hamgylch.

**21. I ba raddau rydych yn fodlon na fydd y dull gweithredu a ddewiswyd yn y maes polisi hwn, h.y. fframwaith anneddfwriaethol, yn gostwng safonau na'r lefelau o ddiogelwch a roddir i iechyd pobl a'r amgylchedd?**

Roedd gan y DU ddiwylliant iechyd a diogelwch cryf eisoes, hyd yn oed cyn i reolaethau gael eu safoni gan yr UE drwy Gyfarwyddeb Seveso. Credaf fod awydd gwleidyddol a phroffesiynol gwirioneddol i gynnal safonau uchel.

**22. I ba raddau y mae'r fframwaith yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau na fydd safonau amgylcheddol yn gostwng?**

Mae'r fframwaith yn cyd-fynd â'r ymrwymiad i sicrhau na fydd safonau amgylcheddol yn gostwng. Nid oes unrhyw awydd i newid nac, yn ddiau, ostwng safonau, yn y maes oherwydd y diwylliant diogelwch yn y sector. Datblygwyd saernïaeth y Fframwaith i fod yn gymesur â'r maes polisi ac, yn ddiau, nid yw'n tanseilio'r ymrwymiad i sicrhau na fydd safonau amgylcheddol yn gostwng.

**Cynigion ar gyfer newidiadau i'r gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus yn y dyfodol**

**23. A allwch egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith ar gynigion ar gyfer diwygio'r gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus ers yr ymgynghoriad uchod?**

Prin yw'r sylweddau peryglus a wneir yng Nghymru, felly nid oes gan swyddogion mewn awdurdodau sylweddau peryglus fawr ddim profiad o ymdrin â cheisiadau. Ysgogodd hyn gwestiwn gan ymatebydd i'n hymgynghoriad diwethaf ynghylch newidiadau i reoliadau a ofynnodd ai awdurdodau oedd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r swyddogaeth. Er ein bod yn cydnabod bod prinder staff â sgiliau a phrofiad, nid yw adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd y mae'r system yn gweithio yn rhywbeth y mae diwydiant na rheoleiddwyr yn gofyn amdano yn eang ar hyn o bryd. Felly, nid ydym wedi bwrw ymlaen â gwaith ar adolygiad ers i'r rheoliadau gael eu disodli yn 2015.

**24. A allwch egluro a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd neu ar gyfer y dyfodol i adolygu'r gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus?**

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus ond am y rhesymau a nodwyd yn yr ateb i gwestiwn 23, mae'n fater a gaiff ei ystyried yn y dyfodol.

**25. O dan ba amgylchiadau y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion i leihau rheolaethau islaw'r gofynion sylfaenol presennol, er enghraifft, ynghylch lefel y sylweddau y gellir eu dal, neu mewn perthynas â'r broses o roi caniatâd ?**

Yr unig amgylchiadau lle y byddai Llywodraeth Cymru yn lleihau rheolaethau islaw'r gofynion sylfaenol fyddai petai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn ein hysbysu bod y rheolaethau presennol yn ormodol a phe gallai hyn gael ei ategu gan dystiolaeth wyddonol.

**26. A allwch egluro a fyddai newidiadau i'r gofynion sylfaenol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd?**

Byddent, byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gofynion sylfaenol yn gofyn am newid y ddeddfwriaeth ac, felly, byddai angen yr ymrwymiad i ymgynghori â'r cyhoedd a sicrhau bod y Senedd yn craffu ar y ddeddfwriaeth.

**27. I ba raddau rydych yn fodlon bod digon o arbenigedd technegol yng Nghymru neu ar lefel y DU i gymryd lle'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd ar lefel yr UE yn y maes polisi hwn?**

Mae'r arbenigedd a ddefnyddir i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi yn genedlaethol ac ar lefel Ewropeaidd bob amser wedi bodoli o fewn aelod-wladwriaethau ac, felly, mae cyngor parhaus yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddigonol ac i'w groesawu yn y dyfodol.

**28. Os na fydd gofynion newydd na diwygiedig gan yr UE mewn perthynas â chynllunio ar gyfer sylweddau peryglus yn gymwys i'r DU, pa drefniadau a roddir ar waith i adolygu gofynion domestig, gan ystyried datblygiadau mewn gwledydd eraill?**

Ni chynigir unrhyw system adolygu ffurfiol y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y Fframwaith. Bydd bodolaeth y Fframwaith yn hwyluso adolygiadau o arferion gorau a gwersi a ddysgwyd o ddatblygiadau yng ngwledydd gweinyddiaethau eraill, y gellir eu defnyddio i nodi pryd y dylid cynnal adolygiad o'r proses sylweddau peryglus yng Nghymru.

Gobeithio y bydd yr ymatebion uchod yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i chi er mwyn helpu i graffu ar y Fframwaith Drafft. Gallaf eich sicrhau, pan fyddwn wedi dod i benderfyniad ar y cyd â'r gweinyddiaethau eraill ynghylch y broses o adolygu'r fframwaith a fformat terfynol y Fframwaith, y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

Julie James AS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

18 Tachwedd 2020

Annwyl Weinidog,

### Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Gymraeg

Trafododd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu iteriad diweddaraf y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ('y Fframwaith') yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd.

Clywodd y Pwyllgor gan Dyfan Sion, o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Wyn Thomas, Dyfodol i'r Iaith, Robot Idris, Cymdeithas yr Iaith, a Dylan Foster Evans o Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

Nodaf y gofynion yn adran 60B(4)(b) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'u mewnosodwyd gan adran 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015) i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw argymhelliaid a wneir gan un o bwyllgorau'r Senedd. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech ystyried ein hargymhellion fel y'u nodir yn y llythyr hwn, sydd â'r nod o fynd i'r afael â materion a godwyd wrth i ni drafod ac ystyried y Fframwaith.

At hynny, nodaf y gofyniad yn adran 60B(6) i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd yn egluro sut y maent wedi ystyried unrhyw argymhellion o'r fath gan y Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at ddarllen y datganiad hwn i weld sut y cafodd argymhellion y Pwyllgor eu hystyried.

### Prif ffrydio'r Gymraeg

Yn y dystiolaeth a gafwyd lleisiwyd pryderon am y ffordd y mae'r Fframwaith yn ymdrin â'r Gymraeg. Clywodd y Pwyllgor am yr angen i brif ffrydio'r Gymraeg drwy'r Fframwaith i gyd a sicrhau bod cysylltiadau cryfach â strategaethau perthnasol eraill.

Dywedodd y rhai a siaradodd â'r Pwyllgor fod y Fframwaith ar y lefel strategol genedlaethol yn cyfeirio sawl gwaith at y Gymraeg, ond bod y sylwadau'n tueddu i fod yn rhai mwy cyffredinol ar y lefel ofodol ranbarthol.

Roedd tystion yn poeni nad oedd digon o atebolrwydd am gyflawni'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg ar lefel ranbarthol. Er enghraifft, dywedodd Dyfan Sion o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg:



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddDGCh@senedd.cymru](mailto:SeneddDGCh@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddCWLC@senedd.wales](mailto:SeneddCWLC@senedd.wales)

 0300 200 6565



'Y fframwaith cenedlaethol sydd ar y top, ond yn bwydo i mewn i hwn hefyd mae gennych chi'r cynlluniau datblygu lleol ac... mae yna ddisgwyliad ar bob un o'r cynlluniau yna i fod yn cynnwys strategaeth ofodol ar gyfer y Gymraeg. Felly, ia, mae cyfraniad y cysylltiad yna ar lefel genedlaethol, ond fel rydych chi'n mynd yn is lawr wedyn i'r lefel ranbarthol, mae yna le i gryfhau hynny, dwi'n meddwl.<sup>1</sup>

Soniodd tystion am yr angen i fesur a monitro cyfraniad y Fframwaith at strategaeth Cymraeg 2050. Dywedodd Dyfan Sion:

'un o'r pethau pwysicaf dŷn ni'n credu ydy'r elfen adrodd a monitro a sicrhau bod y fframwaith yn arwain at gynnydd a chyfraniad tuag at strategaeth Cymraeg 2050. Felly, fel dwi'n ddweud, mae yna elfennau o brif-ffrydio o fewn y fframwaith, ac mae yna gwestiynau pellach wedyn ynghlŷn â sut fydd o'n cael ei weithredu a'i fonitro.<sup>2</sup>

O ran monitro cyfraniad y fframwaith at strategaeth Cymraeg 2050, dywedodd Dyfan Sion 'mae yna gyfraniad hefyd i awdurdodau lleol i'w wneud fel rhan o hynny.'<sup>3</sup>

Nododd fod angen i'r Fframwaith gysylltu â Chynlluniau Cymraeg mewn Addysg.<sup>4</sup> Pwysleisiodd Dyfan Sion yr angen i'r Fframwaith fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu cyfleoedd i ffurfio partneriaethau y tu allan i'r strwythurau rhanbarthol arfaethedig. Rhoddodd enghraifft o gynllun Arfor ar gyfer y Gymraeg, sy'n bartneriaeth rhwng pedair sir yng ngorllewin Cymru.<sup>5</sup>

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r lefel ranbarthol o gynllunio gofodol yn y Fframwaith fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer twf partneriaethau sy'n mynd i'r afael â materion penodol, megis cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg.

Dylai'r Fframwaith nodi sut y bydd y cyfraniad at ganlyniadau Cymraeg 2050 yn cael ei fesur a'i fonitro.

## **Atebolrwydd ar lefel ranbarthol**

Roedd pryderon ynghylch atebolrwydd y strwythurau rhanbarthol a gynigiwyd yn y Fframwaith. Er enghraifft, dywedodd Dyfan Sion:

'Mae yna ddiffyg atebolrwydd i strwythurau rhanbarthol yn gyffredinol. Fel corff sy'n rheoleiddio dyletswyddau statudol, mae hynny'n broblem, achos mae'r dyletswyddau statudol sydd gennym ni, safonau'r Gymraeg a nifer o ddyletswyddau statudol mewn meysydd eraill, yn cael eu gosod fel arfer ar gyrrff

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p37

<sup>2</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p15

<sup>3</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p37

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p36

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p116



unigol, endidau cyfreithiol. Felly, pan mae yna gymaint o benderfyniadau a gwaith wedyn yn digwydd drwy bartneriaeth ar lefel rhanbarthol, mae yna fwch atebolrwydd, o bosib'.<sup>6</sup>

Ysgrifennodd Wyn Thomas, o Dyfodol i'r Iaith:

'Mae gofid bod grym yn symud at gyrff anetholedig. Mae pobl yn deall rôl y cynghorau sir yn llunio Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae pobl wedi ymgysgu â dylanwad Llywodraeth Cymru. Mae mwy o bryder am y Cynlluniau Datblygu Strategol. Nid yw'n amlwg pa rym sydd gan y gyrff yma na pha mor atebol ydynt.'<sup>7</sup>

Roedd llywodraethiant y byrddau rhanbarthol hefyd yn destun pryder i Robat Idris, Cymdeithas yr Iaith, a ddywedodd 'bydd yna bobl sydd heb eu hethol yn eistedd ar y byrddau hynny, sydd ddim yn beth iach iawn, dwi ddim yn meddwl. Rydych chi fel arfer yn gofyn pam maen nhw yna.'<sup>8</sup>

Dywedodd hefyd y byddai'r dull rhanbarthol a'r pwyslais ar greu cysylltiadau cryfach ag ardaloedd trefol yn Lloegr yn niweidiol i'r Gymraeg oherwydd 'mae'n tynnu'r ffocws economaidd hyd yn oed yn fwy tua'r dwyrain pan rydyn ni yn ardaloedd y gorllewin yn cael trafferthion enfawr fel y mae hi'.<sup>9</sup> Dywedodd:

'beth rydyn ni'n gweld ydy, yn hytrach na gweld Cymru fel uned, rydyn ni'n gweld tri rhanbarth sydd yn cael eu cyplysu yn economaidd, a'r deisyfiad yna yn cael ei ailadrodd dro ar ôl tro ar ôl tro, efo gogledd Lloegr, canolbarth Lloegr, de-orllewin Lloegr. Fel Cymdeithas yr Iaith, rydyn ni'n gweld—o'r gorau, fedrwch chi ddadlau bod yna fanteision economaidd i hynny, ond y duedd fydd, buaswn i'n ei ddweud, i wanhau'r Gymraeg yn y gymuned'.<sup>10</sup>

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon ynghylch llywodraethu ac atebolrwydd strwythurau rhanbarthol ac yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau mwy o dryloywder o ran gwaith y byrddau rhanbarthol.

## Yr angen i gydbwyso'r ffocws rhwng canolfannau gwledig a threfol

Roedd pryder bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn rhoi gormod o bwyslais ar dwf mewn canolfannau trefol ar draul cymunedau mewn ardaloedd gwledig. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y dylid rhoi llawer mwy o bwyslais a ffocws ar gymunedau lleol o fewn y fframwaith, yn enwedig gan fod y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd wedi newid mor ddramatig o ganlyniad i'r pandemig.

Er enghraifft, dadleuodd Robat Idris fod y Fframwaith, yn ôl pob golwg, yn seiliedig ar gynlluniau economaidd a phrosiectau seilwaith ar raddfa fawr fel Wylfa. Dywedodd fod

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p115

<sup>7</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Dyfodol i'r Iaith

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p119

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p119

<sup>10</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p25



enghreiffiau lle nad oedd prosiectau o'r fath wedi digwydd yn y pen draw, ond bod y prosiectau seilwaith mawr hyn wedi 'gyrru cynllun datblygu lleol', a bod hyn yn ei dro:

'yn llywio'r gofyn am dai a lle roedden nhw yn mynd i gael eu lleoli. Rŵan, mae gofyn inni, dwi'n meddwl, adeiladu o'r cymunedau i fyny, yn hytrach nag o'r top i lawr.'<sup>11</sup>

Aeth yn ei flaen i ofyn faint o drafodaeth a gafwyd o ran datblygu fframwaith sy'n 'berthnasol i gymunedau lleol', gan nodi:

'mae'n ymddangos, i raddau, fod yr ardaloedd gwledig yn cael eu gweld, bron iawn, fel rhyw ysgyfaint i'r ardaloedd trefol gael eu mwynhau, os leiciwch chi, a bod y boblogaeth sydd yn byw yna yn dueddol o fod yna i'w gwasanaethu nhw.'<sup>12</sup>

Roedd Dyfan Sion hefyd yn credu bod angen mwy o gydbwysedd rhwng twf canolfannau gwledig a threfol. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

'y prif beth buaswn i'n ei ddweud ydy dwi'n meddwl bod angen i'r fframwaith ymateb yn well i'r newidiadau cymdeithasol sydd wedi digwydd yn sgil COVID. Dwi'n meddwl petai'r fframwaith yn cael ei drafftio heddiw, efallai y byddai yna lai o ganolbwyntio ar ganolfannau twf trefol yn y fframwaith. A beth rŷn ni i gyd wedi ei ddysgu, dwi'n meddwl, o'r argyfwng COVID ydy ei bod hi'n bosib i ni fyw a gweithio mewn unrhyw leoliad yng Nghymru; mae'n bosib i ni weithio o bell a gweithio'n hyblyg. A dwi'n meddwl bod y Llywodraeth ei hun hefyd, trwy bolisïau gweithio o bell, yn canolbwyntio'n fwy ar ganolfannau lleol erbyn hyn, yn hytrach na chanolfannau dinesig a threfol, felly mae hynny'n rhywbeth o fewn y fframwaith byddwn i'n dymuno i'r Llywodraeth edrych eto arno fo.'<sup>13</sup>

Clywodd y Pwyllgor hefyd fod angen seilwaith trafniadaeth addas, fel trafniadaeth gyhoeddus, a chysylltiadau band eang cyflym, er mwyn i gymunedau gwledig a lleol allu manteisio ar gyfleoedd gwaith.

Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o wybodaeth am syniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 'canolfannau lleol'. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Fframwaith yn cael ei ddiweddarau i ystyried:

- dull mwy cytbwys o ddatblygu canolfannau trefol a gwledig sy'n ffynnu yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar ganolfannau trefol wedi'u hamgylchynu gan 'gefnwlad' wledig.
- patrymau gweithio newydd, o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn ddiweddar, sydd wedi cynyddu'r angen am fand eang cyflym, dibynadwy a hygyrch ym mhob rhan o Gymru;

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p27

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p26

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020, p58



## Tai fforddiadwy

Galwyd am i'r Fframwaith fynd i'r afael â'r broblem o ran tai fforddiadwy yn fwy cadarn. Mae cysylltiad rhwng gallu pobl o ardaloedd Cymraeg i fyw a gweithio yn eu cymunedau a phrisiau tai yn yr ardaloedd hyn. Dywedodd Robot Idris wrth y Pwyllgor:

'oherwydd bod gymaint o eiddo yn mynd allan o gyrraedd pobl leol, mae hynny'n gwanhau'r cymdeithasau cynhenid. Felly, dwi'n meddwl bod yna le mawr i'r system gynllunio edrych ar yr holl gwestiwn o dai.'<sup>14</sup>

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a ddylai'r Fframwaith ganolbwyntio mwy ar 'gartrefi cymdeithasol' yn hytrach na 'tai fforddiadwy', gan y byddai hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion tai lleol, dywedodd Dyfan Sion:

'Oherwydd prisiau tai uchel a'r canran uchel o ail gartrefi mewn rhai cymunedau, mae o'n anodd iawn i rai pobl allu aros yn eu cymunedau os ydyn nhw'n dymuno gwneud ar hyn o bryd. Yn amlwg, mae hynny'n fater o gyfiawnder cymdeithasol hefyd. Felly, o safbwynt tai fforddiadwy a chartrefi cymdeithasol, y risg ydy bod tai fforddiadwy yn fwy agored i'r farchnad a bod yna lai o reolaeth a llai o allu i gynllunio a darparu. Felly, os ydy canolbwyntio'n fwy ar gartrefi cymdeithasol yn gwella'r broblem sy'n wynebu lot o gymunedau Cymraeg, a bod hynny'n gallu digwydd ynghynt, yna dwi'n cytuno efo'r sylw yn y cwestiwn.'<sup>15</sup>

Galwyd hefyd am i'r Fframwaith fynd i'r afael â'r pwysau a roddir ar ardaloedd Cymraeg o ganlyniad i ail gartrefi, a'r ffaith na all pobl leol gystadlu yn y farchnad. Dywedwyd bod y pwysau wedi cynyddu o ganlyniad i bandemig COVID-19 a bod pryderon mewn cymunedau lleol ynghylch perchnogion ail gartrefi yn teithio yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud.

Dywedodd Robot Idris wrth y Pwyllgor fod 40 y cant o gartrefi yng Ngwynedd wedi cael eu gwerthu fel ail gartrefi yn ddiweddar.<sup>16</sup> Awgrymodd y dylai fod uchafswm o ran nifer y cartrefi sydd ar gael mewn ardaloedd twristiaeth. Dywedodd:

'mae eisiau i ni edrych ar ddeddfwriaeth ynglŷn ag a ydy o'n foisol gywir bod pobl efo ail gartref, neu ail dŷ, lle nad ydy pobl eraill ddim efo nhw. Mae yna le i edrych ar ardaloedd penodol lle mae twristiaeth wedi mynd yn ordwristiaeth, lle dylid pennu uchafswm, os liciwch chi, o dai sydd yn gwasanaethu, neu farchnad ail gartrefi, neu fasnach dwristiaeth mewn rhyw ffordd, ac mae hynny'n cynnwys Airbnb. Mae yna enghreifftiau mewn llefydd eraill lle rydych chi'n tynnu'r pwysau i raddau a phethau felly.'<sup>17</sup>

Ysgrifennodd Wyn Thomas:

---

<sup>14</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p27

<sup>15</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p81

<sup>16</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p83

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p84



'Byddai'n gam sylweddol i ddiogelu'r cymunedau Cymraeg pe byddem yn dilyn trywydd Jersey a Guernsey. Yno, clustnodir canran sylweddol o dai ar gyfer trigolion sydd wedi byw ar yr ynysoedd trwy eu hoes neu sydd â chysylltiad hir ac amlwg â'r lle. Byddai gweddill y stoc tai ar werth ar y farchnad agored.'<sup>18</sup>


Clywodd y Pwyllgor fod y cydbwysedd rhwng perchnogaeth ail gartrefi, cartrefi gwyliau, a pherchnogaeth cartrefi fforddiadwy yn cael effaith ar allu pobl o ardaloedd Cymraeg i fyw a gweithio yn eu cymunedau. Mae effaith prisiau tai a pherchnogaeth ail gartrefi a chartrefi gwyliau ar y Gymraeg yn elfen bwysig y mae angen ei hystyried mewn strategaeth gynllunio sy'n ceisio cyflawni'r nod a ganlyn:

'Os mai'r Gymraeg yw iaith bob dydd y gymuned, caiff gwaith datblygu ei reoli er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall yr iaith barhau'n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hynny'.<sup>19</sup>

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r cysylltiad rhwng cartrefi cymdeithasol a thai fforddiadwy mewn ardaloedd Cymraeg a'r effaith ar y Gymraeg gael eu harchwilio'n fwy trylwyr yn y Fframwaith.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig fel rhan o'u gwaith yn ystyried y Fframwaith.

Yn gywir,



Helen Mary Jones

**Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

---

<sup>18</sup> Dyfodol i'r Iaith

<sup>19</sup> Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, pp54



Mike Hedges AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd, a Materion Gwledig  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

Ein cyf: PO1027/EJ/MWJ

19 Tachwedd 2020

Annwyl Mike,


## Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl y cyfnod pontio

Cefais ohebiaeth (wedi'i chynnwys fel Atodiad i'r llythyr hwn) gan gynrychiolwyr Cyswllt Amgylchedd Cymru mewn perthynas â'r trefniadau dros dro ar gyfer llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ddiwedd cyfnod pontio'r UE.

Yn y llythyr, mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn codi nifer o faterion yn ymwneud â phenodi Aseswr Diogelu'r Amgylchedd dros dro yng Nghymru, ei swyddogaethau a'i gylch gorchwyl, ynghyd â rôl y Senedd yn y trefniadau newydd hyn.

Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cynnal gwaith craffu manwl mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol yn y dyfodol a'i fod yn cynnal sesiynau craffu cysylltiedig â Brexit gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. O ystyried hyn, rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol cael eich barn chi am y materion dan sylw fel man cychwyn.

Yn gywir,



**Elin Jones AS**

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN



[llywydd@senedd.cymru](mailto:llywydd@senedd.cymru)

0300 200 7403

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN



[llywydd@senedd.wales](mailto:llywydd@senedd.wales)

0300 200 7403

Y Llywydd Elin Jones MS  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

**CC: Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, Jeremy Miles AS, Yr Anrhydeddus Brif Weinidog Mark Drakeford AS a'r Gweinidog ar gyfer yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS**

12fed o Hydref 2020

Annwyl Llywydd

## **Parthed: Llywodraethu Amgylcheddol ac Egwyddorion yn dilyn y cyfnod pontio**

Ysgrifennwn atoch mewn perthynas â threfniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru yn dilyn y Cyfnod Pontio - Ionawr 2021 ymlaen. Yn benodol, rydym yn pryderu am y goblygiadau uniongyrchol a thymor hir i fusnes a swyddogaethau'r Senedd.

Fel y gwyddoch, gohiriwyd nifer o ddeddfwriaeth yn ymwneud â Brexit tan ar ôl etholiad Senedd 2021. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth sy'n ofynnol i sefydlu egwyddorion amgylcheddol statudol a threfniadau llywodraethu, y cadarnhaodd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol, y byddai'n cael ei dwyn ymlaen ar ôl yr etholiad pe bai Llywodraeth Cymru "mewn sefyllfa i wneud hynny". Mae'n destun gofid mawr gan ei fod yn gadael Cymru yn wynebu'r sefyllfa y flwyddyn nesaf o gael y trefniadau llywodraethu amgylcheddol gwannaf yn unrhyw wlad yng ngorllewin Ewrop.

Yn lle'r camau deddfwriaethol angenrheidiol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cymhwyso egwyddorion amgylcheddol a sefydlu trefniadau llywodraethu dros dro ar sail anstatudol yn unig, gyda'r broses o recriwtio Asesydd Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Cymru ar y gweill<sup>1</sup>. Nid yw manylion y trefniadau dros dro na'r canllawiau ar gymhwyso egwyddorion wedi'u cwblhau eto. Mae diffyg eglurder hefyd ar rôl y Senedd yn unrhyw drefniadau llywodraethu dros dro a thymor hir, sydd angen eu hystyried ar fyrder.

Ni fydd gan yr Asesydd Dros Dro hwn (fel y cynigir ar hyn o bryd) unrhyw bwerau i ymchwilio i gwynion ac fe fydd, ac eithrio'r cwynion mwyaf difrifol a brys, yn dal y cwynion i'w hymchwilio yn y dyfodol pan fydd y mesurau statudol wedi'u sefydlu. Gallai hyn olygu bod difrod amgylcheddol difrifol, boed digwyddiad llygredd parhaus o orsaf bŵer, i fethiant systemig i amddiffyn rhywogaethau neu gynefinoedd allweddol yn parhau, heb ymchwiliad effeithiol nac ystyriaeth o'r rhwymedïau posibl – arwahan i'r trywydd gwarddol ddrud ar gyfer sefydliadau cymdeithas sifil o adolygiad barnwrol, sydd ddim yn cynnwys rhwymedïau cywirol sydd ar gael ar hyn o bryd trwy'r CJEU.

Ar ben hyn, bydd cwynion dinasyddion yn cael eu pentyrru ac yn parhau i fod heb eu hymchwilio, gan olygu na fydd unrhyw fethiannau cyhoeddus i gynnal a gweithredu'r gyfraith yn cael eu herio, gan adael amgylchedd

---

<sup>1</sup> Vacancy –Interim Environmental Protection Assessor for Wales <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-4ae214241f4a/candidate/so/pm/1/pl/8/opp/6860-Interim-Environmental-Protection-Assessor-Wales/en-GB?fbclid=IwAR0DKS4afDXDK2rVFnBJuK6F3zFQQCKiwwmhBfqpps4EnwCYegLiEBIsW4k>



Cymru yn agored i niwed, a dinasyddion yn methu â gwireddu eu hawliau yn effeithiol o dan ein hymrwymiaidau rhyngwladol presennol.

Er gwaetha'r ffaith fod coronafirws wedi effeithio ar yr amserlenni deddfwriaethol yn San Steffan, Stormont a Holyrood, mae deddfwriaeth wedi'i chyhoeddi, a bydd yn cael ei phasio naill ai cyn neu yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae hyn yn creu ansicrwydd sylweddol, gan gynnwys ynghylch rôl y Senedd o ran craffu ac atebolrwydd, er enghraifft wrth ddelio â chwynion am achosion yn ymwneud â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, ac mae angen eu hystyried ar fyrder.

O ystyried hyn, rydym yn ysgrifennu i godi'r canlynol:

- I ba raddau y mae'r Senedd yn ymwybodol o, ac yn ymwneud â datblygu'r trefniadau dros dro hyn, a pha drafodaethau a gafwyd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar y mater?
- Pa waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i nodi a datblygu rôl y Senedd pe byddent yn cael eu gwireddu
- Pa bwerau sydd gan y Senedd ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu cefnogaeth dyletswyddau ac ehangu gallu yr Asesydd i weithredu
- Pa bwerau sydd gan y Senedd i geryddu Gweinidogion Llywodraeth Cymru os y canfyddir eu bod wedi torri cyfraith amgylcheddol?
- O ystyried y swyddogaethau lled-farnwrol posibl y gall y prosesau hyn eu creu, sut gellir sicrhau didueddrwydd yn ystyriaeth y Senedd o achosion?

Byddem yn eich annog i ystyried y materion hyn fel elfen allweddol o'ch cynllunio trosglwyddo ar gyfer y Senedd, a gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Trosglwyddo Ewropeaidd Jeremy Miles MS yn amlinellu ein pryderon.

Yn gywir

Alex Phillips  
Cyd Gadeirydd Grwp Gwaith Llywodraethu Cyswllt  
Amgylchedd Cymru  
**WWF Cymru**

Steve Lucas  
Cyd Gadeirydd Grwp Gwaith Llywodraethu Cyswllt  
Amgylchedd Cymru  
**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod**

Baltic House, Mount Stuart Square, Cardiff, CF10 5FH  
Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Tel: 02920 497 509

[www.waleslink.org](http://www.waleslink.org)

Registered Charity Number / Rhif Elusen Gofrestredig: 1022675  
Chair / Cadeirydd: Roger Thomas  
Joint Directors / Cyf-Gyfarwyddwyr: Susan Evans & Karen Whitfield  
Tudalen y pecyn 73



Mike Hedges AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

17 Tachwedd 2020

Annwyl Mike

### **Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

Gwnaethom ystyried datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, a osodwyd o dan Reol Sefydlog 30C, mewn perthynas â **Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020** yn ein cyfarfod ar **9 Tachwedd 2020**.

Mae'r Rheoliadau sy'n destun y datganiad ysgrifenedig yn gwneud nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE, a'u pwmpas yw darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Dynodiadau Daearyddol (GI) yn ddomestig ar gyfer Prydain Fawr.

Rydym yn ymwybodol o'r **gwaith** a gyflawnodd eich Pwyllgor y llynedd ar enwau bwyd gwarchodedig ac, oherwydd diddordeb a chyfrifoldebau cyffredinol eich Pwyllgor yn y maes hwn, rydym am dynnu eich sylw at y Rheoliadau a'r datganiad ysgrifenedig am y rhesymau a nodir isod.

Cytunodd y DU a'r UE, yn y Protocol Ymadael Iwerddon-Gogledd Iwerddon y bydd dynodiadau daearyddol Gogledd Iwerddon yn parhau i gael eu gwarchod gan drefn Dynodiadau Daearyddol yr UE ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Efallai y gwyddoch fod dyfodol Dynodiadau Daearyddol o ran y DU a'r UE yn cael ei drafod ar hyn o bryd fel rhan o'r trafodaethau ar y berthynas rhyngddynt yn y dyfodol. Pe bai dim cytundeb, byddai angen i gynhyrchion Prydain Fawr gydymffurfio â gweithdrefn ymgeisio trydydd gwledydd yr UE i gael cofrestrriad yr UE.

Bydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn felly'n creu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol Prydain sy'n gweithio, a rheoliadau'r DU y gellir eu gorfodi yn ddomestig ar gyfer y sectorau gwin a diodydd gwirodol, gyda'r nod deul o sicrhau gwarchodaeth barhaus i 86 o enwau presennol cynnyrch y DU sydd wedi'u cofrestru fel Dynodiadau



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

0300 200 6565

Daearyddol o dan gynlluniau'r UE a sicrhau bod y DU yn parhau i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran Sefydliad Masnach y Byd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer defnyddio logo Dynodiadau Daearyddol newydd ar gynhyrchion gwarchoddedig fel rhan o'r cynllun, h.y. bydd cig oen Cymreig fel bwyd gwarchoddedig yn dod gyda logo 'gwarchoddedig gan y DU' yn y dyfodol.

Mae anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a yw cynlluniau Dynodiadau Daearyddol wedi'u datganoli. Yn ei datganiad ysgrifenedig, mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei barn ar y pwynt hwn:

---

“Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn meysydd sydd o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

(...)

Mewn perthynas â chynlluniau GI, mae gennym ddi-ddordeb mawr mewn sicrhau bod GIs Cymru yn cael eu diogelu ledled y DU (ac yn ddelfrydol, drwy'r trafodaethau ar bartneriaeth yr UE yn y dyfodol). \* Mae offerynnau blaenorol sy'n cael eu cydgrynhoi yn Rheoliadau 2020 wedi bod yn destun gohebiaeth barhaus rhwng Defra a Llywodraeth Cymru, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn anghytuno â safbwynt Defra bod GIs yn ymwneud â materion a ddargedwir.”

---

Mae Gweinidogion Cymru, fodd bynnag, wedi cytuno y bydd ganddynt rôl ystyrlon yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer y cynllun Dynodiadau Daearyddol. Sicrhawyd y rôl hon drwy gytundeb rhynglywodraethol; fel y bydd eich Pwyllgor yn gwybod, nid yw cytundebau o'r fath yn rhwymo'r naill llywodraeth na'r llall. At hynny, nid yw'r ateb hwn i'r anghydfod, wrth gwrs, yn datrys y mater a yw cynlluniau Dynodiad Daearyddol wedi'u datganoli. Ni chyhoeddwyd dim cytundeb rhynglywodraethol fe ymddengys.

Efallai yr hoffech wybod hefyd fod y Rheoliadau yn creu swyddogaethau cydredol y gall Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU eu harfer. Os yw'r Senedd yn dymuno dileu elfen Gweinidog y DU o swyddogaeth gydredol, yna byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU gydsynio i'w dileu. I'r graddau hynny, mae'r Rheoliadau'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed o dan adran 109 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Byddai Gorchymyn o'r fath yn negyddu'r effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ddileu'r angen am gydsyniad Llywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau cydredol, ond nid yw'r amserlen ar gyfer y Gorchymyn hwn ar gael hyd yma.

Byddwch yn gwybod fod Dynodiadau Daearyddol Bwyd (Enwau Bwyd Gwarchoddedig) yn parhau yn un o'r meysydd polisi fframweithiau cyffredin sy'n destun dadl. Mae dadansoddiad Llywodraeth y DU o fframweithiau cyffredin ym mis Medi 2020 yn nodi bod y mater hwn yn destun trafodaethau parhaus rhwng y llywodraethau. Nid yw'n eglur i ni pam mae Llywodraeth y DU wedi bwrw ymlaen â'r Rheoliadau hyn pan nad yw trafodaethau o'r fath wedi'u cwblhau. Felly, er bod y Rheoliadau hyn yn ceisio cynnal cyfundrefn bresennol yr UE ar ôl y cyfnod pontio, pe bai unrhyw lywodraeth yn y DU yn



ceisio gwro oddi wrth y cynllun a gyflwynir gan y Rheoliadau hyn, nid oes proses y cytunwyd arni ar gyfer rheoli sefyllfa o'r fath.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod eich gwaith blaenorol ar y mater hwn wedi nodi pryderon ynghylch effaith unrhyw gytundebau masnach yn y dyfodol ar gynllun Dynodiadau Daearyddol.

Rwy'n ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi ein pryderon am lunio'r Rheoliadau, yn enwedig gan eu bod yn codi materion o bwysigrwydd cyfansoddiadol, pwysigrwydd gwleidyddol a phwysigrwydd cyfreithiol. Rwyf hefyd yn bwriadu tynnu sylw at gymhlethdod cynyddol y setliad datganoli yng Nghymru, fel y dangoswyd yn sgîl yr anghydfod ynghylch y Rheoliadau.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**  
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
We welcome correspondence in Welsh or English



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon